ACADEMI GWELLIANT CYMRU
IMPROVEMENT CYMRU ACADEMY

GIG CYMRU NHS WALES

Academi Gwelliant Cymru
Canllaw Pecyn Cymorth

Diagramau Sbageti

Beth yw Diagram Sbageti?

Offeryn gweledol yw'r diagram Sbageti i'ch helpu i sefydlu'r cynllun gorau posibl ar gyfer gweithgaredd corfforol mewn amgylchedd megis adran neu ward yn seiliedig ar arsylwadau o'r pellteroedd a deithir gan gleifion, staff neu gynhyrchion, megis pelydrau-X.

Rhesymeg

Mae gan ddiagramau sbageti y gallu i amlygu cynlluniau aneffeithlon, gan nodi'r pellter a deithir rhwng camau allweddol tasg neu broses. Offeryn mapio syml yw'r diagram Sbageti, sy'n helpu i nodi meysydd lle gellir arbed amser trwy ddelweddu symudiadau diangen cynhyrchion, staff neu gleifion. Mae'n rhoi trosolwg gweledol i chi o ddaearyddiaeth y broses.

Cefndir

Mae diagram Sbageti yn offeryn syml ar gyfer gwella prosesau DARBODUS. Mae Chwe Sigma Darbodus yn ymwneud â dileu gweithredoedd diangen, gan wneud y broses waith yn llawer mwy effeithlon.

Pryd i'w ddefnyddio?

Mae'r diagram Sbageti yn ddefnyddiol pan fyddwch am asesu amser a wastraffir oherwydd symud diangen drwy ward, clinig, adran neu ysbyty cyfan. Drwy adolygu a lluniadu'r diagram Sbageti cyfredol "fel y mae", gallwch weld lle mae potensial i wneud prosesau'n fwy effeithlon a gwella cynlluniau i leihau'r pellteroedd a deithir. Gall hyn fod yn fater o symud cynllun ystafell a'r deunyddiau a ddefnyddir yn yr ystafell neu'r adeilad hwnnw.

Sut i'w ddefnyddio?

- Penderfynwch beth rydych chi'n mynd i'w arsylwi - e.e. llif cynnyrch, staff neu gleifion. Efallai y byddwch yn penderfynu dadansoddi nifer o'r rhain ar yr un pryd trwy ddefnyddio llinellau lliw gwahanol i gynrychioli pob llif.

- Cynhwyswch gynrychiolwyr o'ch tîm yn y broses o lunio'r diagram Sbageti.
- Eglurwch beth sy'n cael ei wneud a beth allai'r buddion fod i'r tîm (lleihau ymdrech) a chleifion (gwell profiad) a'r sefydliad (gwneud y mwyaf o adnoddau).
- Gofynnwch i'r adran ystadau am ddiagram (neu lluniwch un eich hun) o gynllun llawr yr ardal rydych chi'n gweithio ynddi hi.
- Tynnwch linellau arno i ddangos llif y symudiad fel y mae ar hyn o bryd; gallai hyn fod yn symudiad staff neu glaf yn dibynnu ar y broblem yr ydych yn mynd i'r afael â hi, e.e. claf yn mynd i adolygiad diabetig, neu nyrs ar ward yn newid cathetr claf.

Trwy ddadansoddi'r llinellau, gallwch nodi unrhyw feysydd sydd â symudiad diangen.

Nesaf, aseswch eich diagram i'ch helpu i ailgynllunio'r broses. Cofiwch fod llinellau ar ddiagram Sbageti yn cynrychioli symudiad ac felly gwastraff. A allwch chi ddod â dau bwynt yn nes at ei gilydd i optimeiddio llif? Gall hyn fod yn fan cychwyn ar gyfer llunio diagram Sbageti newydd i adlewyrchu'r llif dymunol.

Diagram 1: Diagram Sbageti Enghreifftiol



Beth nesaf?

Mae'n well defnyddio diagramau sbageti ar y cyd ag offer a thechnegau eraill sy'n helpu i adeiladu darlun gweledol o waith adran, e.e. mapio prosesau neu fapio llif gwerth.

Awgrymiadau Defnyddiol

- Nodwch yr amser, y dyddiad a'r broses sy'n cael eu gwerthuso, ond nid enwau'r unigolion.
- Eglurwch i'r tîm beth sy'n cael ei wneud a gofynnwch am wirfoddolwr.
- Cofiwch olrhain yr union gamau a gymerir.
- Defnyddiwch rifau dilyniannol i nodi unrhyw arosiadau a nodwch yr amser ar gyfer pob arhosiad.
- Sylwch ar unrhyw elfennau lletchwith yn y llinell a gymerir.
- Nodwch unrhyw ymyrraeth yn y llwybr – megis llawfeddyg yn gwisgo gŵn yn y theatr.
- Sylwch pam y gwneir rhai teithiau, e.e. cael cyflenwadau neu lofnodion angenrheidiol.
- Gofynnwch gwestiynau a cheisiwch awgrymiadau gan y tîm – yn aml daw'r syniadau gorau gan y rhai sy'n byw yn y broses.

Adnoddau ychwanegol

Os hoffech ddysgu mwy am wneud gwelliannau i'ch gweithle, edrychwch ar ein gwefan am yr hyn rydym yn ei gynnig i chi https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwelliant-cymru/academi-gwelliant-cymru/ neu e-bostiwch ni academigwelliantcymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru) <improvementcymruacademy@wales.nhs.uk> i gael gwybod am y cyrsiau gwella y gallwn eu cynnig.

Cyfeiriadau

Ihi.org. (2019). *IHI Home Page*. [ar-lein] Ar gael yn: http://www.ihi.org/ [Cyrchwyd 29 Mehefin 2022]. (Saesneg yn unig)

Improvement.nhs.uk. (2022). *Spaghetti diagram | NHS Improvement*. [ar-lein] Ar gael yn: https://improvement.nhs.uk/resources/spaghetti-diagram/ [Cyrchwyd 29 Mehefin 2022].. (Saesneg yn unig)

Sixsigmadaily.com. (2022). [Ar-lein] Spaghetti Chart - Six Sigma Terminology (sixsigmadaily.com) [Cyrchwyd 29 Mehefin 2022]. Bicheno, J (2014). The Lean Tool Box. Buckingham: PICSIE Books (Saesneg yn unig)